Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Diploma Lefel 4 AAT mewn Cyfrifyddu (Rhan-Amser)

Mae cyrsiau AAT (Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifyddu) a gynigir yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ennill profiad ac i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd cyfrifyddu. Mae cyrsiau'n cynnwys tair lefel. Mae pob lefel yn cynrychioli cymhwyster ynddo'i hun.

Mae'r cwrs hwn yn rhedeg ar ddydd Mercher rhwng 09:00 a 17:00. Dim ond wyneb yn wyneb y cynhelir y cwrs hwn yng Ngholeg Castell-nedd ar hyn o bryd – gall myfyrwyr ddewis mynychu'n bersonol neu ar-lein. Ar-lein yn unig y cynhelir y cwrs i fyfyrwyr Coleg Bannau Brycheiniog a Choleg y Drenewydd.

Mae myfyrwyr yn derbyn tystysgrif ar gyfer pob lefel a gyflawnir. Mae angen cofrestru gydag AAT a thelir cost hyn yn uniongyrchol i'r corff proffesiynol. Yn ogystal â ffi'r cwrs, bydd angen i fyfyrwyr dalu ffioedd arholiad o £350 (gallai'r corff dyfarnu newid ffioedd arholiad).

Mae'r unedau'n cynnwys Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol, Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol a Systemau a Rheolaeth Fewnol, ynghyd â 2 uned ychwanegol sy'n cynnwys Archwilio a Sicrwydd a Threth Bersonol a fydd yn darparu dealltwriaeth dda i'r gweithiwr cyfrifyddu newydd neu'r rhai sy'n dymuno mynd i mewn i'r amgylchedd cyfrifyddu.

Gofynion Mynediad

Gofynnir am gymwysterau pwnc penodol Bagloriaeth Genedlaethol Cymru a TGAU. Cymhwyster Lefel 2 mewn Cyfrifeg.

Mae angen cyflawni Lefel 3 ymlaen llaw neu brofiad / cymwysterau perthnasol i fynd i'r lefel astudio hon.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr dros 16 oed mewn ystod eang o leoliadau ond yn bennaf yn gweithio mewn lleoliad cyfrifyddu neu ariannol. Dilyniant i ACCA neu CIMA.

Modiwlau'r cwrs

Wedi'i gyflwyno trwy gydol y flwyddyn academaidd am 1 diwrnod yr wythnos.

Asesiad

Arholiadau ar-lein wedi'u gosod yn allanol ynghyd ag arholiad synoptig sy'n cynnwys pob maes astudio.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

Coleg Y Drenewydd - 01686 614200

Coleg Bannau Brycheiniog - 01686 614400

HYD Y CWRS

Blwyddyn

FFIOEDD

19/20 fees: £1,000